# HANES

# *Yr Hen Wr o'r Coed.*

*CAERFYRDDIN;*

Argraffwyd gan J. Evans, yn Heol-y-Farchnad Isa'.—1816.

"LOATH TO DEPART."

DYMA 'Stori wych i'w chofio, i'r ſawl ſydd âg 'wyllys ganddo,
I foliannu Duw yn ffyddlon, mae'n ddyddanwch mawr i'w galon.

HEN WR oedd yn byw mewn crefydd, ac yn gweddïo'n ddyfal beunydd,
Yn ei weddi 'roedd deiſyfiad, am gael un rhodd cyn ei ddiweddiad,

Cael gweled un o'r gwyrthiau lleia', ai y'ngwlad nef y bydda'i drigfa,
Fel y byddai mwy 'wyllyſgar, i Dduw tra fyddai ar y ddaear.

Ar foreu têg yr oedd yn tario, i Lwyn o Goed oedd agosato;
Y'mrig y pren fe glywai ganu, lais Aderyn* i'w lonycho.

'Roedd yn hên, fe glywſai láwer o amryw gerdd o dannau croyw-ber,
Ac erioed ni wyddai glywed beraidd ſiwſig cyn ſeluſed.

* Drexelius.

Pan glybu ef mor fwyn a hyny, nesu wnaeth lle'r oedd yn canu,
n y Pren i gael ei wrando, ac yno bu nes tewi o hono.

A phan dawodd, fel na chlywodd, efe eilwaith a feddyliodd
ı droi yn ol i fyn'd tuag adre', yn ŵr hŷ i'r tŷ lle bu e'.

Rhyd y ffordd 'roedd yn myfyrio pa hyd y b'asai yno'n gwrando;
vy awr neu dair ef a debyg'sai, dim o *space* yn hŵy ni's b'asai.

A phan ddaeth i olwg cartrau, rhyw ryfeddod fawr a welai,
ai oedd, a'r cloddiau'n ddiball, wedi eu newid mewn modd arall.

Iyn'd i'r tŷ dan sŷn feddylio, pobl ddyeithr ydoedd yno:
l oedd un dyn a adwaenai, ni wyddent hwy pwy ydoedd yntau.

yma helynt sydd ryfeddol, O Arglwydd Dduw, p'le mae fy mhobol?
dyw'n myned o'm tŷ allan, a'r fath gyfnewid yma 'rwan!

Iae'r un teulu yma'n tario er's blyneddoedd, heb newidio:
ithr yw'ch rhefwm, ni's gŵr un dyn am bwy yr ydych yn ymofyn.

'wedai hên ŵr llwyd o'r cornel, gan fy nhâd mi glywais chwedel,
ıan ei dâd y clywsai yntau, ac ar ei ol y clywais innau,

yn'd o Wr o'r tŷ yma allan, yr un enw ac o'r un oedran,
a welwyd mo hono eilwaith, nac am dano ddim gwybodaeth.

X205207765

Erbyn caſglu llyfrau, a'u chwilio, yr oedd blyneddoedd
wedi paſio,
Dri chant a deg a deugain, tra bu'n gwrando ar ſiwſig llawen.

Dyna helynt wych ryfeddol, gan un angel o wlad nefol;
Pa faint mwy yw clywed miloedd yn cyd-ganu yn y nefoedd?

Gwybu'r Hên Wr wedi hyny mai angel Duw oedd yno'n
canu,
Ac a draethodd iddynt hwythau y gwirionedd fel y b'aſai.

Erbyn darfod iddo dd'wedyd y modd y ca'dd y rhoddiad
hyfryd,
Nid oedd ei ſylwedd yn ei ſylw, ond un dyrnaid bach o ludw.*

Ni chlybu cluſt, ni chanfu llygaid, ni's gŵyr un dyn byw a
aned,
Faint llawenydd ſydd i fynu, fwy-fwy beunydd heb ddibenu.

Nid oes un dyn byw all wybod, na darllenydd, na myfyrdod,
Ni fedrodd Paul, nac Awſtin hefyd, mo gyff'lybu'r fath
lawen-fryd.

Pwy na charai Griſt yn ffyddlon, o bur ewyllys gwaed ei galon,
Am gael myn'd i'r fath lawenydd, ac aros ynddo yn dragywydd!

Dyma 'Stori a ddarllenais, o lyfr print Cymraeg † a welais;
Ac a ro'is y geiriau hyny ar lun cân, i bawb i'w dyſgu.

*Fe ddywedir i'r Hên Wr ddychwelyd i'r tŷ o'r lle dyeithr, ac erfyn cael gorwedd ar wely, yr hyn a ganiataẃyd iddo; a gwraig y tŷ a aeth i'w edrych, gydâ photelaid o ryw ddwfr yſbrydol, yno ni chanfu hi ar y gwely ond ychydig o ludw.

† Sef, Y Drych Criſtianogol, &c. 1585.

DIWEDD.

# CAN O HANES
## Crochoeliad ein Harglwydd Iesu Grist.

O de'wch yn nes y Cymry, gwrandewch arnaf yn traethu,
Fel ag y rhoddodd Duw yn rhad, ei anwyl Fab i'n prynu.

Tair awr y bu yn poeni, ac ar y groes'n ein prynu;
Hoelion dur trwy'i ddwylo a'i draed, a'i werthfawr waed yn colli.

Rhoed ar ei Ben ef goron o ddrain yspyddaid llymion,
A rheini'n pwyso'n drwm ar ael ein Harglwydd Ceidwad cyfiawn.

A thrwy fawr boen a blinder, fe gododd syched 'sgeler,
Fe alwai am ddiod yn y man, o ddirmyg gan Iuddewon.

O finegr hwy ro'ent iddo, a bystl chwerw ynddo;
Er cymmaint oedd ei syched blin, dim amgen a ro'ed iddo.

Bu farw'n Ceidwad cyfion, yn ddirmygus gan Iuddewon,
A'i ro'i i orwedd yn ei fedd, yn gorffyn marwol ddigon.

Ac yno hwy ddyfeisen' i geisio pedwar *filen*,
I wylio corff ein Harglwydd Dduw, rhag iddo fyw drachefen.

Wedi gorwedd yn garcharor mewn bedd, trwy drawsder dynion,
Fe godai yn ei gnawd ei hun, heb wybod i un o honyn'.

Fe 'speiliodd uffern boethlyd o lawer enaid hyfryd,
Ac mewn i'r nefoedd gydâg e', y gwnaent eu lle a'u lletty.

Am hyn gweddiwn ninnau, am na ŵyr dyn o'i siwrnau,
Pan yr elo'r chwith o'r ên, er gofyn iddo yn un lle.

Os gofyn neb yn un lle pwy ganodd hyn o lineu,
Ei enw ef yw W. i Dduw fe gân ei orau.

DIWEDD.